

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Golygyddion

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe**
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.org

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen
Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r
Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnele Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys y Pedair Tudalen.

Wybrnant a Phenmachno

Gwenodd yr haul yn siriol wrth i 25 o aelodau a ffrindiau Soar, Nefyn, fynd ar eu taith flynyddol. Anelodd y bws am Fetws y Coed ac yno cafwyd cyfle i ystywto'r coesau a gwledda ar ginio Sul blasus. Yn dilyn hynny, taith trwy'r goedwig gan gyrraedd maes o law Dŷ Mawr, Wybrnant. Cawsom gyfle i ryfeddu eto at hanes yr Esgob William Morgan a'n dyled iddo fel cenedl am achub ein hiaith. Teithio ymlaen o dawelwch y Wybrnant am Gapel Unedig, Penmachno a derbyn croeso cynnes iawn gan ddau o'r aelodau. Cawsom wasanaeth bendithiol yno gan ein gweinidog, y Parchg Glenys Jones a ffrind triw i Soar, sef y Parchg Olwen

Williams. Gwerthfawrogwyd hefyd ddatganiad hyfryd gan Geraint Williams un o garedigion Soar ar organ arbennig y Capel.

Diolch i aelodau'r eglwys am ddarparu panad a chacennau gwerth chweil cyn i ni anelu am adra. Cafwyd diwrnod hapus yng nghwmni ein gilydd a da hynny oherwydd yn y dyddiau oedd yn dilyn y daith, daeth cwmwl dros Soar a threflan Nefyn pan glywsom fod Miss Aileen Owen un o aelodau ffyddlonaf Soar a'n hysgrifennydd ariannol am flynyddoedd lawer wedi ein gadael yn ddisymwth. Diolch am ei chyfraniad a'i chwmni ar hyd y blynyddoedd- bydd chwth i ni ar ei hôl.

Janet Wyn Hughes

**Moreia, Rhymni**

Wedi 175 o flynyddoedd, daeth yr achos ym Moreia, Rhymni i ben ar nos Sul, yr unfed-ar-ddeg



o Fedi. Rhyfedd oedd darganfod, wrth ddarllen yr hanes, taw ar yr un penwythnos ym mis Medi 1841 y cynhaliwyd yr oedfa i agor adeilad y capel hardd hwn yn rhan isaf tref Rhymni (Sir Fynwy gynt). Gollyngwyd yr aelodau gwreiddiol o gynulleidfa capel Seion ym mhen uchaf y dref, a thyfodd Moreia yn eglwys lewyrchus wrth i'r gweithfeydd haearn a glo gynyddu yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan ddenu llawer o fewnfudwyr o siroedd eraill de a gorllewin Cymru i'r ardal. Erbyn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif roedd hwn yn achos adnabyddus, yn bennaf oherwydd yr olyniaeth gref o weinidogion a fu'n gwasanaethu yma. Roedd nifer ohonynt yn feirdd, emynwyr ac arweinwyr diwylliannol yn ogystal ag yn ysgolheigion; yn eu plith, y Parchedigion D. Silyn Evans, J.J. Williams, D.J. Davies a Rhys Bowen. Yn ystod yr oedfa, pwysleisiwyd hefyd gyfraniad yr aelodau

'cyffredin' – y menywod yn ogystal â'r dynion - at lwyddiant Moreia llawer maes.

Dal Ati

Er i nifer yr aelodau, sef 268 ym 1951, leihau yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, ac er i'r eglwys fod heb weinidog am gyfnodau maith wedi ymadawiad y Parchg D. Nennog Thomas ym 1972 a marwolaeth trist y Parchg Gomer Williams yn fuan wedi ei ordeinio ddechrau'r 1990au, cynhaliwyd Ysgol Sul Gymraeg tan 2005 a pharhawyd i gynnal y dystiolaeth – yn ddwyieithog – drwy waith caled ein cynysgrifennydd, Mr John Williams, Bargod, a chefnogaeth nifer dda o weinidogion a phregethwyr lleig fu'n ffyddlon dros ben i'r gynulleidfa fechan. Mawr yw ein diolch iddynt. Rhaid enwi'n arbennig y Parchg Derwyn Morris Jones, Abertawe a fu'n gyfaill triw iawn.

Datgorffori'r Achos

Penderfyniad anodd a phoenus oedd i ddirwyn yr achos i ben a chau man o addoliad sydd yn golygu cymaint i bawb a fagwyd yma, ond daeth cynulleidfa deilwng ynghyd, a chafwyd oedfa addas ac urddasol dan lywyddiaeth gadarn a chadarnhaol y Parchedig Ddr. R. Alun Evans. Camodd i'r adwy ar fyr rybudd a mawr yw ein diolch iddo.

Siân Rhiannon

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

CYNORTHWY-YDD PERSONOL I'R YSGRIFENYDD CYFFREDINOL

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn chwilio am unigolyn brwdfrydig ac egniol i weithio yn
Nhŷ John Penri, Abertawe.

Gwahoddir ceisiadau gan rai sydd o argyhoeddiad Cristnogol, ac sy'n drwyadl ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg.

Ceir disgrifiad llawnach o'r swydd, amodau gwaith a chyflog, a ffurflen gais gan:

Yr Ysgrifennydd Gweinyddol,
Tŷ John Penri,
5 Axis Court, Parc Busnes, Glanrafon,
Bro Abertawe, ABERTAWE. SA7 0AJ

Ffôn: 01792-795888
e-bost: ann@annibynwyr.cymru

Dyddiad cau: 17 Tachwedd 2016
Cynhelir y cyfweiliadau ar
7 Rhagfyr 2016

DIWRNOD HANES 2016

Cymdeithas Hanes yr Annibynwyr

IX. THE WELSH LANGUAGE.

'The Welsh language is a vital backbone to Wales, and a wonderful barrier to the usual progress and commercial prosperity of the people. It is not easy to over-estimate its real value. It is the language of the Church, and superior to that of the ancient Britons. It discloses the people's own interests which would greatly advance their civilization, and bestows the means of improving knowledge to their souls. As a proof of this, there is no Welsh literature worthy of the name.'
The only works generally read in the Welsh language are the Welsh monthly

Brad y Llyfrau Gleision

ac Anghydfurfaeth yng Nghymru

gan yr Athro

PRYS MORGAN

FRHist FSA FLSW

Bydd trafodsethau difyr am
botol a digwyddiadau
hanesyddol eraill yn y pentwrn.



CAPEL BETHEL, SGETI SA2 9BJ

DYDD SADWRN, HYDREF 29

11.00

CROESO CYNNES I BAWB

Ysgrifennydd: Parchg Derwyn Morris Jones derwyn@annibynwyr.cymru

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 149 Rhif 44 Hydref 27, 2016 50c.

Y sawl sydd â chlustiau... Adroddiad Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Morgannwg

Yn Jerwsalem Resolfen y cyfarfu'r Cyfundeb ar Fedi 7fed. Mae'n gapel mawr a hardd, ac mewn cyflwr da. Roedd nifer o'r aelodau yno i'n croesawu a braf oedd cael sgwrs a phaned ar y terfyn. Mae Jerwsalem yn un o'r llondwrn o eglwysi'r Cyfundeb sy'n cynnal dwy oedfa'r Sul. Saesneg yw iaith y gwasanaethau i raddau helaeth erbyn hyn.

Y siom oedd bod llai na chwarter eglwysi'r Cyfundeb yn cael eu cynrychioli yno. Beth sydd i gyfrif am hynny tybed?

Camddealltwriaeth o beth ydy bod yn eglwys Annibynnol hwyrach? Y ffiloreg nad oes a wnelom ni ddim â'n gilydd? Neu tybed a oes blinder mawr wedi cydio ynom, a bod cadw drws ein capel ni ar agor gymaint ag y gallwn wneud? Os felly, mae'n gam tuag at y dibyn. Maddeuwch i mi am y sylwadau llym. Ond yn wir, ble mae 'n teyrngarwch bellach i'n gilydd?

Croesawu'r Llywydd

Roedd yn gyfarfod da serch hynny. Buom yn darllen y Beibl ac yn gweddio dan arweiniad y Parchg Clive Williams ac yn canu emynau gyda Mr



Cadeirydd y Cyfundeb Robat Powell gyda Llywydd yr Undeb

Roy Joseph yn cyfeilio. Mrs Ann Davies, yr ysgrifennydd, oedd yn cyfieithu ar y pryd. Er mwyn i Lywydd yr Undeb gael digon o amser i draethu ei neges, doedd dim busnes arall ar yr agenda. Ein braint ni oedd bod yn gyntaf i groesawu'r Llywydd newydd ar ei daith gyfundebol. Roedd argyhoeddiad, eglurder a her yn llenwi anerchiad Mr D. Glyn Williams. Mynegodd ein cadeirydd Mr Robat Powell, ein diolch diffuant am yr ymweliad a dymunwyd yn dda i Glyn yn ystod tymor ei lywyddiaeth

Dewi M. Hughes



Chwiorydd Jerwsalem Resolfen

Y Gwleidyddion Anhrugarog



Bu trafodaeth ynfyd yn y cylchoedd gwleidyddol am brofi oedran ffoaduriaid o blant sydd yn y Jwngl yng Nghalais, trwy gael deintyddion i edrych ar eu dannedd er mwyn profi eu bod o dan 18 oed. A ydwyf yn synhwyro bellach bod elfennau o fewn i'r byd gwleidyddol wedi colli arnynt eu hunain? A ydynt yn byw mewn swigen fel nad ydyw realaeth yn treiddio atynt? Fe ymddengys fod rhai gwleidyddion yn hollti blew gan anghofio am bethau llawer pwysicach na'u hagweddau bas a chyfyng eu hunain. Beth ddywedodd Iesu, dudwch, wrth yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid? Rhywbeth fel hyn,

"Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr, oherwydd yr ydych yn talu degwm o fintys ac anis a chwmin, ond gadawsoch heibio bethau trymach y Gyfraith, cyfiawnder a thrugaredd a ffyddlondeb, yr union bethau y dylasech ofalu amdanynt, heb adael heibio'r lleill." (Mat 23:23)

Os nad yw'r uchod yn ddealladwy efallai fod cyfieithiad beibl.net yn fwy plaen,

"Gwae chi'r arbenigwyr yn y Gyfraith a Phariseaid! Dych chi mor ddauwynebog! Dych chi'n ofalus iawn gyda rhyw fanion fel rhoi un rhan o ddeg o beth sydd gynnwch chi i Dduw – hyd yn oed perlysiâu fel mintys, anis a chwmin! Ond dych chi'n talu dim sylw i faterion pwysic'r Gyfraith – byw'n gyfiawn, bod yn drugarog ac yn ffyddlon i Dduw. Dylech chi wneud y pethau pwysica yma heb ddiystyru'r pethau eraill. Arweinwyr dall ydych chi! Dych chi'n hidlo dŵr rhag i chi lyncu gwybedyn, ond yna'n llyncu camel!

Ein lle ni fel pobl sydd wedi ein creu ar lun a delw Duw yw trugarhau wrth y rhai hynny yn ein byd sy'n fregus, diymadferth a diamddiffyn ac nid chwilio am esgusion dwy a dimau i fod yn ddirugaredd. Y mae Duw ein Tad wedi trugarhau yn wyrthiol tuag atom ni yn ei Fab, a ninnau'n haeddu dim. Ein braint ni felly yw trugarhau wrth eraill er clod i'r Arglwydd. Y mae'n gwilydd ar unrhyw wleidydd sy'n gwrthod helpu plant sydd mewn trybini. Yn y diwedd y mae hyd yn oed gwleidyddion yn atebol i Dduw os ydynt yn credu ynddo ai peidio. Yn fwy na hynny y mae'n eithriadol o bwysig ein bod ni fel Cristnogion yn codi ein llais tros y gwan gan fynnu cyfiawnder a thrugaredd ar eu rhan.

Alun Tudur

Cyngor Cynhyrchiol

Dyma'r pedwerydd adroddiad a'r olaf o Gyngor yr Hydref, y tro hwn gan Adran yr Eglwysi a'u Gweinidogaeth.

Cynnal y Weiniogaeth

Llawenydd oedd clywed am ordeinio a sefydlu gweinidogion newydd i ofalaethau. Sefydlwyd y Parchg Owen Pugh yn Nebo, Felindre, Abertawe; ordeiniwyd y Parchg Dr Rhodri Glyn yn weinidog Bro Aled. Sefydlwyd nifer oedd eisoes gyda gofalaethau yn weinidogion ar eglwysi ychwanegol sef, Parchg Gwyn Elfyn Lloyd Jones yn Eglwys Annibynnol Bethesda, Tymbll; y Parchg Jill Hailey Harries ar Fethania a 'r Tabernacl Treforys; y Parchg Glenys Jones yn Soar, Nefyn; y Parchg Iwan Vaughan Evans yng Nghapel Newydd, Llandeilo; y Parchg Carwyn Siddall ar Eglwys yr Annibynwyr yn Y Bala. Dymunwyd yn dda i'r Parchg Angharad Griffiths a'r Parchg Wynford Thomas are eu hymddeoliad. Da deall fod Delwyn Siôn wedi ei ddewis fel arweinydd ar Eglwys Bethlehem, Gwaelod y Garth, a bod Aeron Hughes Dolgellau yn derbyn hyfforddiant. Nodwyd hefyd fod Christian William wedi cwblhau ei flwyddyn fel arweinydd ym Mhenclawdd.

Ysgol Haf y Gweinidogion

Adroddwyd ar lwyddiant Yr Ysgol Haf eleni a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Dewi Sant, Caerfyrddin. Bydd Ysgol Haf 2017 yn yr un lleoliad a'r thema fydd Y Diwygiad Protestannaidd. Anogir y Gweinidogion i fynychu'r Ysgol gan ei bod yn rhan o hyfforddiant mewn swydd.

CYSAGau

Deallwyd gan Cysag Sir Gaerfyrddin fod maes llafur ar gyfer astudiaethau Crefyddol lefel A wedi eu cyflwyno ar ddechrau'r tymor presennol a gobeithir cyflwyno maes llafur ar gyfer Tgau ymhen y flwyddyn. Atgoffwyd yr Adran fod gan y Cysagau Sirol hawl i gynnu bod y darpariaethau hyn yn cadw at y safonau a ddisgwyllir. Pwyllgor statudol yw Cysagau Sirol yma

gydag aelodaeth sydd yn cynrychioli'r holl enwadau Cristnogol a chynrychiolwyr o grefyddau eraill.

Cyngor yr Ysgol Sul

Deallwyd fod gwaith y Cyngor hwn mewn sefyllfa sefydlog gan gofio fod Cyhoeddiadau'r Gair yn llawn bwrlwm wrth greu adnoddau Cristnogol.

Rhaglen Datblygu'r Annibynwyr

Pwysleisiwyd bod cymorth ariannol ar gael i brosiectau o fewn Eglwysi, Gofalaethau a Chyfundebau ar gael ac erfyniwyd ar i'r Adrannau feddwl am brosiectau a fyddai yn bywiogi ac yn adfywhau'r dystiolaeth yn eu cymunedau.

**Parchg J. Gwyndaf Richards,
Ysgrifennydd.**



COLLI FFRIND

Dydi o ddim yn arfer mae'n siŵr i goffau gweinidog o enwad arall yn ein hwythnosolyn, ond dwi am ddweud wrthy ch chi i mi gollu ffrind yng ngwir ystyr y gair pnawn Sul diwethaf wedi dim ond ychydig wythnosau o waeledd, ac fel Harri Parri ar y radio bore ddoe ar Munud i Feddwl, dydw innau'n ymddiheuro dim am ei deyrngedu, gan i Harri a minnau, felsawl un arall, gollu ffrind. Yn swyddogol, y Parchedig W.R. Williams oedd ei enw, ond i bawb a'i hadnabu, Wil oedd o, ac fel Wil y mynnai gael ei adnabod. Monwysyn oedd o, a phentref Bodffordd yn gartref iddo fo a'i frodyr a'i chwirydd. Jennie oedd enw'i fam, a dyna chi, ia, Charles oedd enw'i dad. Yda chi wedi dyfalu pa Charles? Charles Williams, yr actor a'r arweinydd noson lawen unigryw a fu farw yn 1990. Clywodd ac ymatebodd Wil i'r alwad i'r Weiniogaeth ac fe'i hordeiniwyd yn 1970 gan ddechrau'i waith ym Mlaenplwyf a'r cylch yng Ngogledd Sir Aberteifi cyn symud yng nghanol y Saithdegau i'r Felinheli a'r cylch yng Ngwynedd. Wedi'n agos i chwarter canrif yno, croesodd y ffin i Fanceinion cyn dod yn ôl i ofalaeth anferth Gogledd Môn yng Nghemaes ac Amlwch. Daeth yntau a Menna ei briod yn ôl i'r Felinheli i ymddeol. A do, dwi wedi colli ffrind cywir iawn ym marwolaeth Wil, ac y mae hi'n dipyn o dolc.

FFRIND I BAWB

Fedrai neb ddweud am Wil fod 'ganddo' i bobl'. Y gwir amdani oedd mai dymuniad pennaf ei galon ymhob un o'r cylchoedd y bu'n troi ynddynt oedd ei awydd i fod yn ffrind i bawb o bob enwad a di-enwad. Yr oedd yn gymysgwr da ac yn un y gallech ymddiried pob cyfrinach iddo, boed y bo. Pan ddeuthum i'n weinidog i Ben-y-groes yn 1993, roedd Wil am y pared a mi yn y Bontnewydd fel rhan o ofalaeth y Felinheli, a gallaf dystio'n gwbl gadarn, mai ffrind i bawb y dymunai fod. Ond dealedd y darlennydd, roedd ganddo'i argyhoeddiadau cadarn, a gallai eu mynegi yn garedig a thynnu pobl eraill nid yn gymaint i gytuno ag o, ond i'w barchu.

HEB CHWENNYCH CLOD...

Dwn i ddim a fu Wil yn Llywydd neu Ysgrifennydd unrhyw Henaduriaeth; os bu, byrhaodd pob gaef efo'i hiwmor! Ond, a bod yn onest, dydwi ddim yn meddwl am eiliad iddo chwennyth esgyn i unrhyw gadair enwadol. Petawn i'n ceisio chwilio am ansoddair i ddisgrifio Wil, 'gostyngedig' fyddai hwnnw, a gor-ostyngedig hefyd. "Faint gest ti o gynulleidfa yn fan-a'r-fan Sul dwyth washi (dyna un o'i hoff eiriau)? "O, ryw ddeuddag Wil." "O ia, wel, faswn i'm yn cal hannar hynna yli washi - dydw i fawr o brygethwr sdi." Ac yn y fan a'r lle torwn ar ei draws a dweud wrtho yn gwbl ddiffuant: "Paid a rwdlan Wil achos mi rwy'ti'n ardderchog." A daliaf hyd y dydd heddiw i ddweud a chredu hynny, oherwydd cefais yr

hyfrydwch ragor nag unwaith o'i wrando yn agor y Gair gyda'r urddas a'r unplygrwydd a'r gwreiddioldeb mwyaf, a chynulleidfa oedd yn dweud iddynt gael blas arno'n traethu. Dwn i ddim gafodd o'r cyfle i bregethu yn uchel wyliau ei enwad - dwi ddim yn meddwl rhywsut iddo gael, a mawr gywilydd i'w enwad, a phob enwad arall hefyd am beidio anrhydeddu'r rhai hynny sy'n ostyngedig o galon ac sy'n rhoi gwasanaeth gwerthfawr i'w Harglwydd yn eu hardaloedd.

EI FFYDD

Daeth y newyddion am ei salwch fel sioc i lawer ohonom, ond anghofia i fyth ddewrder ei ffydd yn ei salwch. Mynnodd fod Elin, ei ferch, er enghraifft, yn darllen iddo lyfr y Datguddiad ar ei hyd yn ei ddyddiau olaf! "Paid â throio'i esbonio" meddai wrth Elin, gan ychwanegu: "Os oedd Doctor Tudur yn deud na peth gwirion oedd trio sbonio hwn, pwy yda ni i neud hynny?!" Ond roedd ei ffydd yn ei Arglwydd yn agoriad llygad i amryw. Wna inna ddim trio dehongli'r Datguddiad, ond mi ddyfynna i'r adnod: "...bydd yr Oen sydd yng nghanol yr orsedd yn eu bugeilio hwy, ac yn eu harwain i ffynhonnau dyfroedd bywyd, a bydd Duw yn sychu pob deigr yn o'u llygaid hwy." (Datguddiad 7:17) Mi wn i fod Wil yn credu hynna. Dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd wash, a diolch i ti am lonni bywyd unigolion ac eglwysi o bob enwad.

Iwan Llewelyn

Barn Annibynnol

Y Gog' a Gobaith y Gwanwyn

Ar y Sul cyntaf Medi eleni, bu farw'r Gwir Barchedig David Edward Jenkins - a fu o 1984 - 1994 yn Esgob Durham - yn 91 mlwydd oed. Bydd unrhyw un sy'n gyfarwydd â'i enw yn sylweddoli gymaint fu ei gyfraniad i'r meddwl Cristnogol a diwinyddol cyfoes a chymaint hefyd fu'r feiriadaeth arno am yr hyn a welwyd gan lawer fel daliadau radical ac annerbyniol.



David E. Jenkins

Ysbrydoliaeth

Dewch i mi fod yn onest ar y cychwyn! Roeddwn i'n edmygydd mawr ohono. Cefais ganddo - trwy ei lyfrau a'i anerchiadau - ysbrydoliaeth ac ysgogiad i feddwl o'r newydd am ystyr rhai o ddaliadau canolog y ffydd Gristnogol yn ein dyddiau dryslyd ni. Dichon mai ei gyfraniad pennaf oedd iddo fynnu ar hyd ei weinidogaeth fod onestrwydd yn rhinwedd canolog mewn unrhyw drafodaeth ar ffydd a bod rhaid wynebu'r cwestiynau anodd yn gwbl agored.

Awdur

Cyn ei benodi'n Esgob Durham (wedi iddo gael ei enwebu, yn eironig ddigon, gan y Prif Weinidog Margaret Thatcher!) cyfrannodd yn helaeth at y meddwl Cristnogol cyfoes drwy ei lyfrau. Un o'r cyntaf oedd *The Glory of Man*, sef, y Darlithoedd Bampton a gyflwynwyd yn Eglwys y Santes Fair yn Rhydychen yn 1966. Llyfryn arall ar themâu tebyg oedd *What is man?*, a gyhoeddwyd gan Wasg SCM. Y ddau lyfr hyn oedd un o'r rhesymau iddo gael ei benodi'n gyfarwyddwr prosiect arbrofol gan Gyngor Eglwysy'r Byd, *The Humanum Project*, a roddodd gyfle iddo deithio o amgylch eglwysy'r Cyngor i ddirnad y profiad dynol mewn amgylchiadau amrywiol. Tra yn y swydd hon y cyhoeddodd *The Contradictions of Christianity*, sef, darlithoedd Edward Cadbury ym Mhrifysgol Birmingham a draddododd ym 1974. Yn y broliant i'r gyfrol dywed:

'Cyflwynyn inni, rwy'n credu, efengyl sydd nid yn unig yn concro tywyllwch ond yn addo gogoniant. Ond down o hyd i'r cynnig hwn nid lle rydym yn hyderus a chysurus ond lle rydym yn cael ein gwrthwynebu a lle rydym ar goll. Dyma lle gallwn ddarganfod... posibiliadau Duw

sydd, ar yr un adeg, yn bosibiliadau bod yn ddynol.'

Wedyn fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr prosiect cymdeithasol a diwinyddol creadigol eraill, sef, Sefydliad William Temple ym Manceinion ac ymhen amser yn Athro Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Leeds, lle roedd, ar ei gyfaddefiad ei hun, yn dawel ei fyd yn ymchwilio, darlithio a chyfarwyddo.

Gwahoddiad

Yna daeth y llythyr! Cafodd ei wahodd i fod yn Esgob Durham ac wedi 24 awr o ystyried a gweddio derbyniodd y gwahoddiad. A newidiodd ei fyd. Cyn iddo ddechrau ar ei weinidogaeth newydd tynnodd nyth cacwn am ei ben mewn rhaglen deledu am yr atgyfodiad. Daeth pwysau ar yr awdurdodau i beidio â mynd ymlaen â'r penodiad, ond gwrthododd Archesgob Caergaint, Robert Runcie, ac Archesgob Efrog, John Habgood, ystyried y fath bosibilrwydd a bu'r ddau ohonynt yn gefn iddo drwy'r cyfnod cyffrous a heriol hwn ac aethpwyd ymlaen â'r oedfa gysegru yn Eglwys Gadeiriol Caer Efrog a'r oedfa orseddu yn Eglwys Gadeiriol Durham. Bu rhaid iddo ef a'i deulu ddiodef y cyhuddiadau fod Duw yn cosbi'r Eglwys am gysegru person fel ef i fod yn Esgob drwy ddanfôn melltlen a roddodd Gadeirlan Caer Efrog ar dân.

Gwasanaethodd yr Eglwys, ei gyd-offeiriadau a'i esgobaeth gyda gofal, ymroddiad, dewrder, gweledigaeth a brwdfrydedd heintus am ddegawd gyffrous a chreadigol. Yn ôl Esgob Ripon, James Bell, roedd yn 'gwrtais a beirniadol; yn angerddol a phryfoclyd; yn ddiamynedd a phroffwydol; yn llawn cynhesrwydd, hiwmor a doethineb; yn frith o ddynoliaeth, gonestrwydd a diffuantrwydd.' A thrist iawn yw deall fod y person â'r meddwl mawr wedi bod yn diodef o gletyd *Alzheimer's* ers rhai blynyddoedd.

Etifeddiaeth

Pa etifeddiaeth Gristnogol a adawodd yn waddol i ni sydd wedi ei ddilyn mewn oes heriol a dryslyd i ffydd? Gellid llenwi tudalennau *Y Tyst* am flwyddyn gydag atebion i'r cwestiwn hwn ond dyma dri ateb i aros pryd. (Am y gweddill awgrymaf eich bod yn darllen ei lyfrau. Maent yn agor meddwl ac yn meithrin ffydd). Gofynnwyd iddo gan ei ferch i roi mewn geiriau un sillaf ei ddealltwriaeth ef o'r ffydd Gristnogol. Ei ateb oedd: *God is; God is as he is in Jesus; so there is hope*. Dyma oedd y thema oedd yn rhedeg drwy'r bregeth a draddodwyd gan Esgob Ripon yn ei angladd. Dyma fynd â ni i graidd y ffydd mewn dyddiau pan mae pobl yn cwestiynu bodolaeth Duw ac arwyddocâd Iesu. Dyma gyfraniad

creadigol ac adeiladol i'r hyn a welai fel tasg ganolog i Gristnogaeth yn yr ynysoedd hyn: cael pobl i feddwl yn ddyfnach ac yn fwy creadigol am eu ffydd. Yn ei bregeth yn yr oedfa orseddu yn Durham, a gynhaliwyd ynghanol streic y glowyr, fe bwysleisiodd mai'r dasg Gristnogol heddiw yw: '...wynebu'r hyn sy'n digwydd, mynd i'r afael â'r hyn sy'n digwydd a'i ddirnad Ef yn yr hyn sy'n digwydd.' A minnau'n ysgrifennu'r geiriau hyn ddeuddydd cyn ein bod yn cofio trychineb erchyll Aberfan, mae'n dda i ni gofio fod Cristnogion (megis y diweddar Erastus a Lyn Jones) gyda llu o bobl eraill wedi gwneud hyn yn union: 'mynd i'r afael â'r hyn oedd yn digwydd' dros y blynyddoedd anodd a ddilynodd y trychineb a 'dirnad Duw' yn y cyfan oll a thystio i'w gariad anorchfygol.

Ffynhonnell Gobaith

Diweddgo'r bregeth honno oedd geiriau Paul at y Rhufeiniaid: 'A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â llawenydd a thangnefedd wrth i chwi arfer eich ffydd, fel y byddwch trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith.' Neges ganolog ei weinidogaeth gyfoethog a heriol, neges fawr ei fywyd hir a byrlymus, yw bod gobaith yn yr argyfwng mwyaf, oherwydd bod Duw, sydd fel y mae yn Iesu - a groeshoeliwyd ac a gyfodwyd - bob amser yn cynnig gobaith, llawenydd a gogoniant. A beth am 'y gog' yn y teitl i'r pwt hwn? Dyna'r enw a roddwyd iddo gan Mrs Thatcher pan sylweddolodd hi ei fod yn creu'r fath gynwrf ac anghysur iddi hi a'i llywodraeth! A dyna pam y rhoddodd David Jenkins i'r llyfr y mae'n ei alw yn '*Not quite an autobiography*' y teitl '*The calling of a cuckoo*'. O na glywir cân y gwcw unwaith eto ym mynyddoedd a dyffrynnoedd Cymru i roi inni addewid y gwanwyn am haf o obaith. Diolch i Dduw amdano.

Noel A Davies

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Gweinyddu'r Cymun

Y Parchg Aled Jones yn
cynnal dwy sesiwn ym
Methlehem
Gwaelod-y-garth
Tachwedd 15 a
Thachwedd 17
rhwng 7.00 a 9.00 y.h.

Croeso cynnes i unrhyw un o
eglwysy'r de ddwyrain

Ebeneser, Gorseinon
Oedfa Ddatgorffori
Ddydd Sul, Rhagfyr 1af am 2.30

Yn dilyn cau'r capel, mae'r eitemau
canlynol ar gael:

90 o gadeiriau plastig vsdafn

BLWYDDIADUR 2014

UNDEB YR ANNIBYNWYR
CYMRAEG

Yn cynnwys
Dyddiadur, Darlleniadur, Suliadur
a Llawlyfr

Pris: £7.50

yn cynnwys cludiant

AR GAEL NAWR

Cysylltwch â Thŷ John Penri i
archebu eich copi
01792 795888
undeb@annibynwyr.org

BLWYDDIADUR 2013

UNDEB YR ANNIBYNWYR
CYMRAEG

Yn cynnwys
Dyddiadur, Darlleniadur, Suliadur
a Llawlyfr

Pris: £7.00

yn gynnwys cludiad

AR GAEL NAWR

Cysylltwch â Thŷ John Penri i
archebu eich copi
01792 795888
undeb@annibynwyr.org

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
**SWYDDOG CYNNAL
AC ADNODDAU
(GOGLEDD CYMRU)**

Mae Undeb yr Annibynwyr
Cymraeg yn chwilio am unigolyn
brwdfrydig ac egniol i gynorthwyo
yn y gwaith o gefnogi eglwysi a
darparu adnoddau ar eu cyfer i
dyfu a datblygu'n ysbrydol,
a chyflwyno'u tystiolaeth i'w
cymunedau.

Gwahoddir ceisiadau gan rai sydd
o argyhoeddiad Cristnogol, ac sy'n
drwyadl ddwyieithog
mewn Cymraeg a Saesneg.
Ceir disgrifiad llawnach o'r
swydd, amodau gwaith a chyflog,
a ffurflen gais gan:

Yr Ysgrifennydd Gweinyddol,
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Clwydrafon, Bro Abertawe,
ABERTAWE. SA7 0AJ

Tlysau Cyfundeb Lerpwl –
Blwyddyn 7-9
Ffôn: 01792-795888
e-bost: ann@annibynwyr.org
'Fy eglwys ddelfrydol i'

Gwaith llaw y gellid ei gyflwyno mewn
unrhyw ffordd. **Dyddiadur 20 Mehefin 2014**
na main (A1) model 3-D, dyddiadur
Cynheni y cyfweithadau ar
cyflwyniad PowerPoint, ayyb
8 Gorffennaf 2014
Gwobrau: 1. Tlws i'w gadw a £100,
2. £50, 3. £25

Os am eu gwahodd, gallwch
gysylltu â
Tlysau Cyfundeb Lerpwl –
Gwynn ar **07766-055656**
Blwyddyn 10-15
neu Elenid ar **029-20-891803**
'Fel hyn y byddai fy eglwys ddelfrydol i...'
Cystadleuaeth siarad cyhoeddus. Caniateir
5-6 munud o anerchiad.
Gwobrau: 1. Tlws i'w gadw a £100, 2.
£50, 3. £25

Lluniau

Pan fyddwch yn anfon lluniau i'w
dangos yn *Y Tyst* a fyddai modd i chi eu
hanfon un ai yn ddigidol neu wedi eu
hargraffu ar bapur safonol. Nid yw
lluniau sydd wedi eu hargraffu ar bapur
cyffredin o safon digonol i'w defnyddio.
Diolch o galon.

Alun Tudur

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
a'r Cyngor Ysgolion Sul

Llyfrynnau Nadolig
'Wele, cawsom y Meseia'

Darlleniadau a gweddïau byrion i
atgoffa oedolion a phlant o ystyr y
Nadolig. Gellir ei ddsbarthu o
fewn yr eglwys neu allan yn y
gymuned.



Prisiau:

100 copi = £30

1,000 copi = £250

O fewn yr 20 tudalen, ceir hanes
stori'r Nadolig, detholiad o
gerddi, carolau, gweddïau a
myfyrdodau, i gyd mewn lliw
llawn!

Gellir archebu copïau trwy anfon
neges at

Y Parchg Aled Davies,
Cyfarwyddwr y Cyngor
Ysgolion Sul.

Cyfeiriad e-bost:
ysgolsul@hotmail.com

Cystadlaethau Cwpan Denman a Thlysau
Cyfundeb Lerpwl 2015

Dyddiad cyflwyno gwaith llaw a/neu
hysbysu Tŷ John Penri o enwau
cystadleuwyr y gystadleuaeth Siarad
Cyhoeddus – **1 Mai 2015**

Cwpan Denman

'Byd Newydd Duw yn seiliedig ar Eseaia
65:17-25'

Cywaith mewn unrhyw gyfrwng gan blant
Ysgol Sul, oedran cynradd.

Gellir ei gyflwyno mewn unrhyw gyfrwng,
megis poster (dim mwy na maint A1),
model 3-D, cyflwyniad PowerPoint, ayyb.
Gwobrau:

1. Cwpan Denman i'w gadw am flwyddyn
a £200 i'r Ysgol Sul
2. £100 i'r Ysgol Sul
3. £50 i'r Ysgol Sul

Y Blwyddiadur

Mae'n bwysig fod Ysgrifenyddion Eglwysi a Chyfundebau yn cofio mai'r diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno gwybodaeth am newidiadau sydd i'w cynnwys ym Mlwyddiadur 2014 yw **dydd Sadwrn, 14 Medi 2013.**

Mae'n bwysig fod pob deunydd yn cyrraedd y Golygydd, Alaw Rowlands erbyn y dyddiad hwn.

Ni fydd yn bosibl cynnwys newidiadau fydd yn cyrraedd yn hwyr.

Anfoner unrhyw newidiadau fydd i'w cynnwys at:

Alaw Rowlands,
Tŷ John Penri,
5Axis Court,
Parc Busnes Glanrafon,
Bro Abertawe,
Abertawe. SA7 0AJ
neu at
alaw@annibynwyr.org

Tystio i'r Tystion yn Y Tyst

Cofiwch mai eich papur chi fel Annibynwyr ac eglwysi Annibynnol yw'r *Tyst*. O ganlyniad yr ydym yn awyddus i adlewyrchu ystod eang ein tystiolaeth a'n gwaith fel Cristnogion yng Nghymru a thu hwnt.

Apeliwn arnoch i ysgrifennu pythau a chyfraniadau mwy swmpus atom yn gyson. Beth sy'n digwydd yn eich heglwys chi? Beth am ddweud wrth eraill trwy gyfrwng *Y Tyst*. Gydag e-bost y mae nawr yn haws nag erioed. Gadewch i ni glywed eich hanesion chi.

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Beth sy'n digwydd?

Mae llawer o eglwysi o amgylch y wlad yn cynnal gweithgarwch sy'n adeiladol ac yn cyfrannu at ddatblygiad yr eglwys, ei thystiolaeth a'r gymuned.

Y trafferth yw nad ydym yn cael clywed beth y maent yn ei wneud!

A yw gweithgarwch Annibynwyr Cymru yn gyfrinach? Go brin!

Beth am anfon peth o hanes gweithgarwch eich eglwys, yn enwedig y pethau hynny sy'n ymwneud â'i datblygiad a'i thystiolaeth yn y gymuned, i'r *Tyst* ac i wefan yr Undeb?

Beth am anfon llun neu ddau hefyd?

Anfonwch at:
aluntudur@btinternet.com

*

Rhaglen Datblygu Annibynwyr Cymru

Os oes gennych unrhyw hanesion am waith eich eglwys cofiwch anfon adroddiad at olygydd y *Tyst*
aluntudur@btinternet.com

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

CAMERA A MEICROFFON CUDD!

Dyna sydd ei angen mewn ambell fan er mwyn cael gwybod beth mae'r eglwys yn ei wneud! Er bod amrywiaeth o weithgarwch yn digwydd, nid ydym byth yn cael clywed yr hanes

Beth am anfon peth o'r hysbysu i'w gyhoeddi yn y *Tyst*, yn pethau hynny sy'n ymwneud â datblygiad yr eglwys thystiolaeth i'r gymuned

BETH AM ANFON LLUN
NEU DDYDD HEFYD

Anfonwch at:

aluntudur@btinternet.com

*

**Manylion Cyswllt i
Rhaglen Datblygu Annibynwyr
y Parchg Gwffrey**

Digwydd Pasio,
Casblaidd (Wolfscast)
Hwlfordd, (Haverfordwest)
Sir Benfro
SA62 5NA

Rhif ffôn: 01437 741111

Cyfeiriad e-bost:
Geoffrey@ymans.freeseite.com

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Beth sy'n digwydd?

Mae llawer o eglwysi o amgylch y wlad yn cynnal gweithgarwch sy'n adeiladol ac yn cyfrannu at ddatblygiad yr eglwys, ei thystiolaeth a'r gymuned. Beth am anfon peth o hanes gweithgarwch eich eglwys, yn enwedig y pethau hynny sy'n ymwneud â'i datblygiad a'i thystiolaeth yn y gymuned, i'r *Tyst* ac i wefan yr Undeb?

A yw gweithgarwch Annibynwyr Cymru yn gyfrinach? Go brin!

Beth am anfon peth o hanes gweithgarwch eich eglwys, yn enwedig y pethau hynny sy'n ymwneud â'i datblygiad a'i thystiolaeth yn y gymuned, i'r *Tyst* ac i wefan yr Undeb?

Beth am anfon llun neu ddau hefyd?

Anfonwch at: aluntudur@btinternet.com

Rhaglen Datblygu Annibynwyr Cymru

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Rhennwch eich cyfrinach!

Mae'n sefyllfa ryfedd, ond mae rhai pobl yn trin pob gwybodaeth am weithgarwch eu heglwys fel cyfrinach fawr! Nid ydynt yn dweud wrth neb beth sy'n digwydd!

Torrwch y distawrwydd!

Anfonwch beth o hanes yr eglwys yr ydych chiwi yn perthyn iddi, ac ambell lun at:

aluntudur@btinternet.com

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Diwrnod i Weinidogion y De

Festri Capel Bethania,
Tymbl Uchaf

Dydd Mercher,
11 Medi 2013

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

CEFNOGAETH

EGLWYS

Cofier i'r
Ysgrifennydd
y Parchg Ddr
ar gael i ymwneud
eglwysi sy'n per
ac sy'n dymu
sefyllfa, eu
cenhadaeth, eu
unrhyw amgylch
peri pryder. N
rhaid g

Dylid cyfrannu
Thŷ John Penri a
neu anfon
geraint@annibynwyr.org

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Y Golofn Weddi

**Dros yr wythnosau nesaf,
dylem gynnwys y canlynol
yn ein gweddïau:**

- Llwyddiant gwaith y Deyrnas yn ein plith yn 2014
- Apêl Haiti, a gweithgarwch yr eglwysi i'w chefnogi
- Ymbil am arweiniad yr Ysbryd Glân wrth i ni gasglu awgrymiadau ar gyfer cyfnod nesaf y Rhaglen Datblygu
- Y rhai sy'n arwain yn yr eglwysi, yn weinidogion, arweinyddion, diaconiad ac aelodau ymroddedig
- Ieuenctid Cymru. Boed i Dduw ddod â hwy i adnabod Iesu Grist fel Gwardwr, a'n galluogi ninnau i fod â rhan yn y gwaith
- Nosweithiau 'Deffro' fydd yn dechrau yng Nghaerdydd ar 31 Ionawr, ac yna'n cael eu cynnal mewn amrywiol rannau o'r wlad i hybu addoliad a mawl ymhith pobl ifanc ac yn yr eglwysi.

*Parhewch i weddio yn ddyfal,
yn effro, ac yn ddiolchgar. (Col 4:2)*